Ein Hiechyd Ein Dyfodol | Our Health Our Future

Helpwch ni i lywio dyfodol iechyd a gofal ym Maesteg
Help us shape the future of health and care in Maesteg

# #DyfodolIachMaesteg



**Heriau presennol i wella iechyd yng Nghwm Llynfi:**

- Mynediad at wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael gan bob darparwr
- Mynediad at grwpiau a chyngor i helpu i osgoi ynysu cymdeithasol
- Rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau iechyd
- Argaeledd a chost cludiant i Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr ac oddi yno
- Parcio yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr
- Diffyg cludiant i Ysbyty Cymunedol Maesteg
- Parcio yn Ysbyty Cymunedol Maesteg
- Anawsterau o ran gallu cael apwyntiadau amserol gyda meddyg teulu
- Diffyg trafnidiaeth gymunedol yng Nghwm Llynfi
- Tai gwael yn y gymuned
- Diffyg cyflogaeth leol

**Dychwelyd gwelyau i Ysbyty Cymunedol Maesteg:**

- Cyfle ar gyfer cyfleuster gwelyau newydd ar y safle ar gyfer nyrsio EMI, camu i fyny/camu i lawr, ailalluogi, seibiant, adsefydlu a gofal lliniarol
- Gofal hirdymor i gleifion dementia

**Creu man cymunedol:**

- Caffi Cymunedol ar y safle i bawb ei ddefnyddio, gan gynnwys lle i grwpiau cyfoedion gyfarfod (caffi dementia, niwrocaffi ac ati)

**Defnydd gwell o asedau lleol:**

- Gwella'r defnydd o Barc Lles Maesteg ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau ehangach
- Ariannu *junior parkrun*
- Dosbarthiadau ioga, Pilates ac ymwybyddiaeth ofalgar yn yr awyr agored

**Timau amlddisgyblaethol sefydledig yn Ysbyty Cymunedol Maesteg:**

- Mwy o wasanaethau awdurdod lleol yn yr Ysbyty, gan gynnwys cydleoli Rhwydwaith Integredig Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol
- Timau Iechyd Meddwl
- Cyfranogiad y Trydydd Sector, megis Age Connect Morgannwg
- Gwasanaethau i wella bwyta'n iachach a maeth, gan gynnwys dosbarthiadau coginio
- Defnyddio Cynllun Cyflogadwyedd lleol
- Cyngor ar Bopeth ac elusennau cynghori eraill

**Ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg:**

- Moderneiddio ond bod yn sensitif i'r nodweddion gwreiddiol, megis y ffasâd allanol, y teils yn y dderbynfa a'r cloc allanol
- Gwella mynediad i gadeiriau olwyn
- Creu prif fynedfa a derbynfa
- Newid enw'r Ysbyty, ond bydd bob amser yn cael ei adnabod yn lleol fel yr 'Ysbyty'

**Gwella gwasanaethau iechyd a gofal ehangach yng Nghwm Llynfi:**

- Canolfan Wybodaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles lleol wedi'i lleoli yng nghanol y dref
- Gwell cynnig i helpu i atal salwch
- Gwell mynediad at Grwpiau Dementia ac ati
- Cydgysylltu gwasanaethau iechyd a gofal yn well yn lleol
- Ehangu mynediad at grwpiau dynion, fel Men's Sheds, i wella iechyd dynion a lleihau unigedd
- Mwy o weithgareddau 'Byddwch Lawen' – dosbarthiadau dawns ayyb
- Hybiau Cynnes

**Gwasanaethau yn y dyfodol yn Ysbyty Cymunedol Maesteg (sy'n adeiladu ar wasanaethau presennol) i greu Model Prif Ganolfan a Lloerennau:**

- Uned Mân Anafiadau a Salwch gyda gwell gwasanaethau Pelydr-X
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys
- Canolfan Plant a Theuluoedd
- Canolfan Iechyd i Ferched
- Clinigau Cynenedigol ac Ôl-enedigol
- Clinig Iechyd Rhywiol
- Gwasanaethau Rheoli Pwysau
- Ysbyty / Canolfan Ddydd
- Ffisiotherapi
- Gwasanaethau Fflebotomi
- Mwy o glinigau cleifion allanol
- Apwyntiadau o Bell / Rhithwir (a fydd yn osgoi'r angen i deithio)
- Gwell gwasanaethau diagnostig lleol
- Profi Symudol: Sganio CT ac MRI
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Ychwanegol
- Amrywiaeth ehangach o glinigau ar gyfer diabetes ac ati
- Gwasanaethau Ataliol, fel clinigau eiddilwch / cwympo
- Gwell defnydd o dechnoleg i gefnogi cleifion yn y gymuned
- Gwell cefnogaeth leol i'r rhai sydd ag Anawsterau Dysgu
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â chlefydau cronig

**Datgarboneiddio Ysbyty Cymunedol Maesteg:**

- Paneli solar
- Cladin solar
- Pympiau Gwres o'r Ddaear
- Gwefryddion EV
- Gardd gymunedol